Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

28 Tachwedd 2019

**PARTH: AHGTAEM – Seiber: Cadwch y golau ymlaen – Archwiliad o ymateb yr heddlu i droseddau seiber-ddibynnol**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Ysgrifennaf mewn perthynas â'r adroddiad y sonnir amdano uchod, sy'n cael ei groesawu gan y Prif Gwnstabl Mark Collins a minnau.

Mae'n galonogol bod yr adroddiad yn cydnabod bod sawl maes arfer da a bod Dyfed-Powys fel heddlu wedi'i gydnabod fel yr unig heddlu i enwi troseddau seiber-ddibynnol fel blaenoriaeth benodol.

Gall gwell cysylltiad elwa cymunedau gwledig yn fawr, ond mae yna beryglon. Mae Heddlu Dyfed-Powys bod achosion o droseddwyr yn cymryd mantais o natur ymddiriedus pobl ar gynnydd, ac mae hyn wedi'i wneud yn haws drwy'r rhyngrwyd. Dyna pam y dewisais ymdrin â throseddau seiber-ddibynnol fel blaenoriaeth benodol o fewn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, ac rwyf wedi buddsoddi'n barhaus mewn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu gallu'r heddlu yn y maes hwn yn ystod fy nghyfnod yn y swydd.

Mae'n drosedd sy'n effeithio ar bobl o bob cymuned, ac yn fy nghynhadledd flynyddol ym mis Mawrth 2019, canolbwyntiais ar dwyll a seiberdroseddu gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth ynghylch maint y bygythiad a gyflwynir, gan roi manylion am y math o bobl a'r nifer sy'n medru cael eu heffeithio, ac yn bwysicach na dim, deall y mesurau ataliol y gellir eu rhoi ar waith er mwyn diogelu pobl. O 2017-2020, rwy'n rhoi arian tuag at gyflwyno'r prosiect KiVA, sydd wedi'i anelu at godi ymwybyddiaeth ynghylch bwlio a seiber-fwlio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Sir Benfro, ac eleni, rwyf wedi cynyddu'r arian ar gyfer yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu o £53,000 - arian a gynhyrchwyd gan y cynllun ailhyfforddi gyrwyr ac elw troseddau - er mwyn hwyluso'r broses o ddadansoddi ffonau symudol i gynorthwyo'r heddlu i ddwyn troseddwyr i gyfiawnder yn gynt.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Rwyf hefyd wedi ariannu dau ymchwilydd arbenigol i ymdrin â throseddau seiber-ddibynnol a throseddau sy'n cael eu hwyluso gan ddulliau seiber, a rôl sy'n gweithio'n benodol i amddiffyn ein cymunedau a'n busnesau ac ymgysylltu â nhw.

Rwyf wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r maes hwn, ac mae hyn yn amlwg o'm penderfyniad diweddar i barhau i ariannu'r swyddi arbenigol hyn.

Mae gennyf gynrychiolaeth ar bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus, sy'n rhoi cyfle allweddol i mi ymgysylltu a dylanwadu ar ffrydiau gwaith yn y dyfodol. Mae Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wrthi'n adolygu eu rôl, effeithiolrwydd a rhyngwynebau gyda phartneriaethau eraill o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Mae prosiectau megis Byw'n Ddiogel, yn Iach ac yn Annibynnol, Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (prosiect sy'n cael ei arwain gan y frigâd dân), a Chysylltwyr Cymunedol (cynlluniau gwirfoddoli yn Sir Benfro) eisoes yn bodoli, ac rydyn ni'n edrych ar gynnwys hyfforddiant atal twyll a throseddau seiber o fewn cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n hyderus y bydd ffocws parhaus Heddlu Dyfed-Powys ar y maes hwn yn gyrru gwelliannau pellach. Bydd fy swyddfa'n parhau i weithio gyda'r Heddlu er mwyn sicrhau ein bod ni'n amddiffyn ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol a diogelu'r rhai sy'n agored i niwed.

Mae copi o'r ymateb hwn ar gael ar fy ngwefan.

Yr eiddoch yn gywir

Dafydd Llywelyn

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Copi at: AEM Wendy Williams

Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.